

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2017 6:00 y h., 4ydd o DACHWEDD 2017,
GWESTY'R CELTIC, CAERNARFON

1. Croeso

Estynnodd Sian Shaespear, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at y ffaith fod y pwyllgor wedi penderfynu diwygio trefniadau eleni gyda'r cyfarfod yn cychwyn yn gynt am 5.30, sgwrs y gŵr gwadd am 6.30 a'r cinio am 8pm. Gofynnodd i'r aelodau fynegi eu barn ar yr amserlen ddiwygiedig ac os y dylid cadw ati i'r dyfodol.

2. Cydymdeimlad

Ar ran y Clwb, cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda Gwen Evans, Rhuthun yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr yn ystod yr wythnos flaenorol

3. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Dewi Hughes, Bruce Lane, Eirwen Williams, Alun Hughes, John a Carys Parry, Gwyn Roberts

4. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2016

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar y 5ed o Dachwedd 2016 yn yr Oakley Arms, Maentwrog fel rhai cywir.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd Iolo fod y pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, ym misoedd Ionawr, Mai a Medi ym Mhlas y Brenin

Rhai o'r materion a gafodd sylw:

- Gan fod yr argraffiad cyntaf wedi gwerthu'n llwyr, cytunwyd i ailargaffu *Copaon Cymru*
- Cychwynwyd ar y gwaith o ail edrych ar Wefan y Clwb ac ystyried sut i wneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol – Trydar/Facebook i hyrwyddo'r g weithgareddau
- Gofynnwyd i George Jones a John Grisedale roi Darlith Goffa Llew Gwent yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac fe wnaed y trefniadau angenrheidiol.
- Cytunwyd i gynnal gweithgaredd ar y cyd hefo'r Urdd – cafwyd teithiau i fyny tri phrif gopa Cymru sef Yr Wyddfa, Cader Idris a Phen y Fan ym mis Mai
- Cytunwyd, pan fydd tymor cadeiryddion y Clwb yn dod i ben, y dylid eu cyfethol fel aelodau cyffredin o'r pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd (os yn cytuno) er mwyn cael cyfnod o drawsnewid rhwng y cadeiryddion a manteisio ar arbenigedd a phrofiad pob cyn-gadeirydd

- Gyda gweithgareddau preswyl a drefnir argymhellwyd na ddylai'r Clwb fod ar ei golled o achos i unrhyw unigolyn dynnu yn ôl ar ôl iddo/i roi enw i lawr ac ymrwymo i fynychu
- Cafwyd trafodaeth ar y priodoldeb o ganiatáu cŵn ar deithiau'r Clwb neu beidio ac fe gytunwyd y dylid sefydlu polisi o beidio â chaniatáu cŵn ar deithiau a gweithgareddau Clwb Mynydda Cymru
- Ystyriwyd canllawiau ar gyfer arweinyddion teithiau a phenderfynwyd y dylid eu diwygio fel a ganlyn
 - yr angen i arweinydd gario lloches ar y daith
 - pwysleisio'r angen i gadw'r cerddwyr/mynyddwyr gyda'i gilydd
 - tynnu sylw at fanteision cyd-arweinydd, yn arbennig os oes criw mawr yn cerdded/mynydda
 - tynnu sylw arweinyddion ac aelodau bod modd cofrestru ffonau symudol er mwyn eu defnyddio mewn mannau lle nad oes derbyniad

Derbyniwyd yr adroddiad

6. Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Nododd Eryl ei bod yn braf gallu edrych yn ôl ar flwyddyn brysur a llwyddiannus arall o weithgareddau Clwb Mynydda Cymru, a diolchodd am ymroddiad yr aelodau a'u parodwyd i drefnu ac i arwain. Nododd fod 43 o unigolion wedi gwneud hynny dros y deuddeg mis diwethaf. Mawr oedd y diolch i bob un – ar ei ran ef ac ar ran aelodau'r Clwb sydd wedi mwynhau'r teithiau a drefnwyd ganddynt.

Trefnwyd 30 o deithiau cerdded penwythnos yn y gogledd, y mwyafrif llethol ar ddydd Sadwrn, gydag ambell un yn unig ar y Sul. Roedd cyfartaledd o bron i 14 ar bob taith a'r nifer mwyaf oedd 26, a hynny ar ddwy daith, taith draddodiadol y Clwb i gopa'r Wyddfa ar Ionawr 2il, a thaith dan arweiniad Chris i fynyr Glyderau ar y Sadwrn olaf yng Ngorffennaf. Er bod y syniad o gael taith i gopa ein mynydd uchaf ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn yn apelgar, efallai bod osgoi dydd Calan ei hun yn denu mwy. Ar ddydd Sadwrn, y 30ain o Ragfyr, y cynhelir y daith hon dros y gwyliau nesaf.

Cynhaliwyd 10 o deithiau Mercher, gyda chyfartaledd o 24 ar y teithiau hynny. Maent felly'n parhau'n boblogaidd iawn, gyda 34 yn dod ynghyd ar gyfer dwy daith, Mynydd Bodafon a'r cyffiniau dan arweiniad Nia a Margaret ym mis Chwefror ac yna'r mis canlynol, yr un nifer yn dilyn Gwilym Jackson i fyny o Ddolgarrog tua Chwm Eigiau.

Tra ei bod yn bwysig paratoi arlwy sy'n denu, nid ffigyrau presenoldeb yn unig sy'n cyfrif. Mae'r un mor bwysig i glwb mynydda drefnu gweithgareddau megis sgrialu ar Glogwyn y Person, a ddenodd 6 dan arweiniad Gareth Wyn, neu'r daith hir dan arweiniad Dwynwen o amgylch Pedol Cwm Pennant, eto'n denu 6 o gerddwyr brwd. Diolchodd hefyd i Morfudd a Cemlyn am drefnu taith ddeuddydd o Ddyffryn Ogwen i Flaenau Ffestiniog, taith arall oedd yn heriol.

Bu criw'r de'n cerdded yn rheolaidd hefyd gyda deg o deithiau'n cael eu cynnal dros ardal eang, yn ymestyn o daith ar y Preselau i'r daith yn ardal Crughywel, a gynhelir yn flynyddol bellach cyn iddynt fwynhau cinio min nos yng Ngwesty'r Bear ddechrau Rhagfyr. Byddai'n

braf cael mwy o gyd-deithio rhwng aelodau o bob rhan o Gymru a bu sôn am drefnu penwythnos rhywle yng nghyffiniau Cwm Tawe rhywdro'r flwyddyn nesaf.

Rydym fel clwb yn awyddus iawn i ddenu aelodau newydd – iau, yn arbennig – ac i dynnu mwy atom fel clwb. Un diwrnod llwyddiannus iawn eleni oedd y tair taith a drefnwyd ar y cyd â'r Urdd ar Wyl y Banc ddechrau Mai i gopaon Pen y Fan, Cadair Idris a'r Wyddfa. Daeth tua 60 ar y teithiau hyn, llawer yn rhai na fyddent wedi bod yn ddigon hyderus i ddod ar un o deithiau arferol y clwb. Braf iawn hefyd oedd cael cwmni criw o ddisgyblion a rhieni Ysgol Pentrefoelas ar daith Yr Wyddfa. Gobeithiwn y bydd y teithiau hyn yn digwydd yn flynyddol.

Cafwyd wythnos lwyddiannus arall, er gwaethaf tywydd amrywiol, yn yr Alban nol ym mis Chwefror, yn aros ar gyrion Ullapool ym mhellafoedd y gogledd-orllewin. Maldwyn sy'n parhau i drefnu'r tripiâu hyn felly llawer o ddiolch iddo. A diwedd Mai, cafwyd ail ymweliad a'r Alban a'r criw o 28 a fentrodd i ardal Torridon yn mwynhau tywydd gwych ac wythnos arbennig iawn o fynydda. Diolch i Elen a Morfudd am drefnu.

Yn yr un modd, diolch i Gwyn Williams am drefnu'r ymweliad ag ardal y Long Mynd a Chaer Caradog ddechrau Mehefin, gyda 22 yn manteisio ar y cyfle i gerdded brynau trawiadol y rhan dawel a diarffordd hon o Swydd Amwythig. Ac unwaith eto profodd apêl Ardal y Llynnoedd yn gryf gyda 23 yn aros yn Ambleside ym mis Hydref.

Mae darlith Goffa Llew Gwent yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ennill ei lle yng nghalendr y clwb erbyn hyn ac roedd Pabell y Cymdeithasau'n llawn i wrando ar George Jones a John Grisedale yn traddodi'n hynod ddifyr ar y testun *Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd*.

Bu nifer o wahanol griwiau yn crwydro dros y môr gyda sawl grŵp yn estyn gwahoddiad i gyd-aelodau ymuno â hwy, er nad oedd y teithiau hyn yn rhai swyddogol gan y Clwb. Da dweud bod sawl trip o'r fath ar y gweill ar gyfer 2018 hefyd.

Pwysleisiodd Eryl ei fod bob amser yn croesawu sylwadau, gan gynnwys beirniadaeth os oes awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth. Gofynnodd i'r aelodau fod yn frwdfrydig ac yn barod i gynnig arwain a threfnu teithiau dros y flwyddyn sydd i ddod.

7. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Derbyniwyd adroddiad gan Iolo yn rhoi diweddariad ar gynlluniau i wneud newidiadau i wefan y Clwb.

Nododd fod defnydd o'r wefan yn cadw'n gyson, gyda gweithgaredd y Clwb yn cael ei adlewyrchu'n weddol gyflawn yn ogystal a darparu gwybodaeth i aelodau a rhai sydd â diddordeb mewn ymaelodi. Diolchodd i bawb a ddanfonodd adroddiadau a lluniau.

Datblygodd y defnydd o'r Gweplyfr (Facebook), mewn cyswllt â'r wefan hefyd yn ystod y blynyddoedd diweddaraf. Bellach mae perthynas agos rhwng defnydd o'r wefan a'r cyfrwng cymdeithasol hwn. Paratowyd tudalennau Trydar (Twitter) hefyd. Dengys yr ystadegau a dderbynnir fod rhai cannoedd o unigolion yn derbyn gwybodaeth drwy'r Gweplyfr yn wythnosol. Daeth nifer o aelodau newydd i'r clwb oherwydd y presenoldeb hwn.

Bellach, mae gwefan y clwb ar ei thrydedd fersiwn. Diweddarwyd y fersiwn gyfredol bum mlynedd yn ôl. Cynlluniwyd y wefan ar gyfer defnydd ar gyfrifiaduron pen desg neu liniaduron – a chafwyd cynllun proffesiynol gan gynllunydd graffeg ar y pryd. Daeth yn amlwg yn ddiweddar fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr adnoddau'r wefan bellach yn cael y wybodaeth drwy ddefnyddio ffonau clyfar (a llechi) yn hytrach na chyfrifiaduron. Bu'r pwyllgor yn trafod hyn dros fisoedd yr haf a daethpwyd i'r casgliad fod angen ailddyfeisio'r wefan i fod yn addas ar gyfer y cyfryngau hyn hefyd. Yn anffodus, mae gofynion y teclynnau hyn yn wahanol –y sgrîn yn llawer lai i ddechrau. Nid yw cynllun ac adeiladwaith tudalennau gwe ar gyfer sgriniau mawr cyfrifiaduron yn cydweddu â gofynion ffonau clyfar. Ond, gall cynllun sy'n addas ar gyfer y ffonau fod yn dderbyniol, os nad yn ddelfrydol, ar gyfer cyfrifiaduron mwy. Rhaid felly oedd arbrofi gyda chynllun oedd yn addas ar gyfer y sgriniau bychan, gan gyfaddawdu ar y cynllun ar gyfer cyfrifiaduron.

Trafodwyd cynllun newydd arbrofol gan y pwyllgor a daethpwyd i'r casgliad y dylid mabwysiadu gwefan newydd ar sail y cynllun newydd a hyblyg hwn. Roedd angen ailwampio'r holl dudalennau presennol i'r fersiwn newydd. Gan fod adnewyddu tudalen Rhaglen y Clwb yn digwydd yn naturiol ddiwedd Rhagfyr 2017, awgrymwyd mai dyma fyddai'r amser gorau i lawnsio'r wefan newydd (gan osgoi gorfod ailosod y rhaglen gyfredol, nad yw'n addas ar gyfer ffonau clyfar).

Cytunwyd â'r awgrym uchod.

Er mwyn cyflawni'r trosiad i'r fformat newydd bydd angen rhai newidiadau:

1. Bydd tudalennau "Dolenni Diddorol", "Tywydd" a'r "Fforwm" yn diflannu. Nid oedd gwrthwynebiad i hyn gan yr aelodau. Er y bu defnydd iddynt yn y gorffennol, nid oedd eu hangen bellach.
2. Bydd cynnwys yr "Oriel" yn cael ei drosglwyddo i gyfri Flickr y clwb (ble mae holl luniau teithiau'r clwb yn cael eu cadw bellach).
3. Bydd y wefan newydd yn cael ei chynllunio fel "hwb" ar gyfer ei defnyddio gyda'r gwefannau cymdeithasol amrywiol. Awgrymwyd cynnwys Instagram hefyd – gan fod hwn yn gyfrwng poblogaidd ymysg y rhai iau.
4. Bydd ffenestri ar y dudalen cartref yn cynnwys cyswllt byw â'r hyn sydd ar dudalennau Gweplyfr a Thrydar y clwb.
5. Bydd angen newid y ffordd mae'r llun ar flaen adroddiad hanes gweithgaredd yn cael ei arddangos (fel ei fod yn addas ar gyfer ffonau clyfar). Nid yw'n ymarferol newid yr holl dudalennau hanesyddol i fod yn gyfangwbwl addas (mae dros ddwy fil ohonynt yn mynd yn ôl i 2005). Er hynny, bydd yn dal yn bosib eu darllen – er na fydd y llun i'w weld ar ei orau.

Cytunwyd fod hynny yn dderbyniol.

8. Adroddiad y Trysorydd.

A. Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2016-2017.

Adroddwyd

- i. bod nifer yr aelodau eleni yn 303 (cynnydd o 296 y llynedd)
- ii. bod incwm y clwb wedi cynyddu eleni wedi derbyn swm o o £xxx oddi wrth Gwasg Carreg Gwalch fel breindal ar gyfer *Copaon Cymru*

iii. bod y cyfrifon yn dangos bod gan y Clwb £5,609.45 yn y banc

Cytunwyd derbyn y cyfrifon ar gyfer 2016 – 2017

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn a'r golled o £588.50 a wnaed ar wythnos y Clwb yn Torridon ym mis Mai. Nodwyd fod yna wahanol resymau am y golled ond un ohonynt oedd bod rhai aelodau wedi datgan eu bod am fynychu ond wedyn wedi tynnu'n ôl.

Nodwyd fod yr Ysgrifennydd eisoes wedi cyfeirio at y ffaith bod y pwyllgor wedi ystyried hyn ac wedi argymhell y dylid ceisio sicrhau na fyddai'r Clwb yn wynebu colled ar unrhyw weithgaredd preswyl, yn arbennig o achos i unrhyw unigolyn dynnu ei enw yn ôl ar ôl iddo/i roi enw i lawr ac ymrwymo i fynychu

Cytunwyd y dylid sefydlu trefn gyda gweithgareddau preswyl a drefnir gan y Clwb y bydd disgwyl i aelodau sy'n ymrwymo i fynychu dalu'r gost yn llawn

9. Swyddogion y Clwb

A. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2017:

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

B. Gyda swydd y Trysorydd, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith fod Gareth Roberts wedi penderfynu rhoi gorau i'r swydd eleni ar ôl nifer o flynyddoedd o wasanaeth. Talodd deyrnged iddo am ei waith graenus a thrylwyr dros y blynyddoedd a nododd fod y Clwb wedi bod yn ffodus cael unigolyn gyda'i gefndir o yn y byd amaeth a busnes yn edrych ar ôl arian y Clwb.

Cytunodd Dilys Phillips i ymgymryd a swydd Trysorydd y Clwb. Oherwydd ei bod i ffwrdd am gyfnodau sylweddol yn ystod y flwyddyn, cytunodd Richard Roberts i gadw golwg ar faterion ariannol y Clwb yn ei habsenoldeb
Cytunwyd

i. I ethol Dilys A Phillips fel Trysorydd newydd y Clwb

ii. Yn sgil sylwadau'r Cadeirydd i benodi Richard Roberts fel Trysorydd Cynorthwyol

iii. Diolch i Gareth am ei waith fel Trysorydd y Clwb dros y blynyddoedd

Rhoddyd anrheg i Gareth gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol ar ran y Clwb i ddiolch iddo am ei wasanaeth fel Trysorydd.

11. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2017

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth bod Mark W Williams wedi datgan ei fod am roi'r gorau i fod yn aelod o'r pwyllgor ar ôl eleni a bod Stephen Williams wedi cytuno i gymryd ei le. Fel y nodwyd eisoes estynnwyd gwahoddiad i Richard Roberts fynychu 'r cyfarfodydd fel sylwedydd am gyfnod o ddwy flynedd fel y gellid manteisio ar ei brofiad

Yn dilyn hyn bydd aelodaeth y pwyllgor fel a ganlyn:

Cadeirydd

Sian Shakespear

Is-gadeirydd

Gwyn Williams (Llanrwst)

Aelodau

Raymond Griffiths

Dewi Hughes

Elen Huws

Dwynwen Jones

Myfyr Thomas

Eirwen Williams

Stephen Williams

Swyddogion

Dilys A Phillips

Eryl Owain

Iolo ap Gwynn

Iolo Roberts

Trysorydd

Ysgrifennydd Gweithgareddau

Ysgrifennydd y Wefan

Ysgrifennydd Cyffredinol

Richard Roberts

Fel Trysorydd Cynorthwyol a chyn- gadeirydd

Gan nad oedd neb arall wedi datgan diddordeb i wasanaethu ar y pwyllgor, cytunwyd ar yr aelodaeth uchod ar gyfer 2018.

12 Archwilydd

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

13. Adroddiad gan y Cadeirydd

Wrth i'r cyfarfod ddod i ben cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol:

Arweinwyr Teithiau

Diolchodd i'r holl aelodau hynny oedd yn gwirfoddoli i arwain teithiau'r Clwb a thrwy hynny yn sicrhau y gellid darparu rhaglen gyffrous o deithiau i aelodau drwy'r flwyddyn

Nododd bod y pwyllgor wedi ailedrych ar ganllawiau i arweinyddion teithiau ac byddai neges yn mynd allan yn gofyn iddynt gymryd sylw ohonynt

Tâl Aelodaeth

Cynyddodd y CMP ei ffioedd eleni ac o ganlyniad bydd y ganran o dâl aelodaeth bob aelod sy'n cael ei drosglwyddo i'r CMP yn cynyddu i £14.25. O ganlyniad, dim ond 0.75c o dâl aelodaeth pob aelod fydd yn mynd i goffrau'r Clwb. Yn amlwg ni fydd y sefyllfa yma yn gynaliadwy a bydd yn rhaid i'r Clwb ystyried cynyddu'r tâl aelodaeth rhywbryd yn y dyfodol.

Byddai yn gofyn i Dilys fel y trysorydd edrych i fewn i oblygiadau hyn gyda'r gobaith y gellid cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ei ystyried yn y lle cyntaf cyn dod a'r mater gerbron y Cyfarfod Blynyddol i wneud penderfyniad ar lefel y tâl aelodaeth.

Credai y byddai'n werth cael barn yr aelodau yn gyffredinol ynglŷn a hyn. A fyddai'n well ganddynt weld y tâl aelodaeth yn cynyddu unwaith o swm sylweddol, dyweder o £5, a fyddai wedyn yn sefydlog am nifer o flynyddoedd neu gael cynnydd llai ond amlach?

13. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth cais i drafod unrhyw bwnc penodol .

Ar ol y Cyfarfod Blynyddol daeth Sam Roberts atom i sôn am ei brofiadau yn dringo mynyddoedd uchel y byd gan gynnwys Chomolungma a hefyd am ei anturiaethau yn paragleidio. Roedd yn gyflwyniad, diddorol , bywiog a doniol a phawb yn ei fwynhau.